

Archifau Morgannwg



DARGANFOD Y GORFFENNOL

1 Mawrth 2019 - 29 Chwefror 2020



Croeso i'n 10fed Adroddiad Blynyddol sy'n disgrifio gweithgareddau Archifau Morgannwg yn ystod y cyfnod o 1 Mawrth 2019 hyd at 29 Chwefror 2020

Dyma'n degfed flwyddyn yn yr adeilad newydd, ein deunawfed flwyddyn fel sefydliad, a fy mlwyddyn gyfan olaf fel Archifydd Morgannwg. Byddaf yn ymddeol ar ddiwedd mis Mawrth 2020, yn gadael y gwasanaeth mewn adeilad llawer gwell ac wedi'i baratoi'n rhesymol i oroesi ychydig ddegawdau mwy.

Mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur a chynhyrchiol arall. Mae'r staff wedi cyflwyno 11,897 o ddogfennau i 2,457 o ddefnyddwyr yr ystafell ymchwil ac maent wedi ymateb i 3,457 o ymholiadau drwy'r post. Cafwyd bron i 8,000 o ymweliadau â'r adeilad drwy gydol y flwyddyn.


Mae gweithdai a theithiau wedi eu cwblhau ar gyfer 599 o fyfyrwyr o lefel ysgol gynradd hyd at ôl-raddedig. Mae staff wedi croesawu myfyrwyr hanes, hanes gwleidyddol a ffotonewyddiaduraeth o Brifysgol De Cymru a myfyrwyr ysgrifennu creadigol o Brifysgol Fetropolitan Caerdydd. Mae Ysgol Gyfun Porthcawl ac Ysgol Uwchradd Whitmore yn y Barri wedi anfon dosbarthiadau tra bod Ysgol Uwchradd Fitzalan yng Nghaerdydd wedi cymryd rhan mewn sawl project gyda ni. Cynhaliodd yr Archifau ddiwrnod HMS i Ysgol Gyfun Plasmawr a'i hysgolion cynradd bwydo. Mae gweithdai seiliedig ar y cwricwlwm ar gyfer ysgolion cynradd wedi denu mwy nag un ymweliad gan Ysgol Victoria ym Mhenarth, Ysgol Illtud Sant yn Llanilltud Fawr, ac ysgolion Grangetown, Adamsdown, Kitchener, Mountstuart a Threganna yng Nghaerdydd. Astudiodd Ysgol y Ddraig Llanilltud Fawr y glo a'r dociau a daeth Ysgol Gatholig Santes Helen o'r Barri i ddefnyddio'r Casgliad mewn gweithdy animeiddio.



Cynhaliwyd ym mis Tachwedd Diwrnod Meddiannu cenedlaethol blynyddol Plant Mewn Amgueddfeydd yr ydym ni wedi bod yn cymryd rhan ynddo ers 2013. Eleni, tro disgyblion Ysgol AAA Greenfield, Merthyr Tudful, oedd cymryd rolau Archifyddion a Chadwraethwyr am y diwrnod. Fe wnaethant helpu i gynnal yr ystafell ymchwil gyhoeddus, yn ogystal â chatalogio casgliad ffotograffau, a glanhau dogfennau yn y stiwdio gadwraeth. Cymerodd cyfanswm o ddeg disgybl ran, yng nghwmni tri aelod staff. Mae hi wedi bod yn bleser arbennig gallu ymestyn y profiad meddiannu i ysgolion arbennig, cynnydd a gefnogwyd gan ein partneriaethau hirsefydlog ag asiantaethau cyflogaeth â chymorth a gyda Phobl yn Gyntaf Caerdydd sydd wedi rhoi hyder i staff i weithio ochr yn ochr â phobl â gwahanol anableddau. Cafodd y digwyddiad Meddiannu ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu, a ddatblygwyd fel menter Pobl yn Gyntaf Caerdydd ac mewn partneriaeth â nhw, ei gynnal eto eleni gyda chyfraniad Pobol yn Gyntaf Y Fro. Roedd ein digwyddiad Drysau Agored eleni yr un mor boblogaidd ag erioed.

Mae teithiau ac arddangosfeydd wedi eu cynnig i grwpiau o Gymdeithas Tai Taf, Tenantiaid Cyngor Caerdydd, Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru, canghennau Caerdydd a'r Fro a Sili Cymdeithas Hanes Teuluol Morgannwg, Project Treftadaeth o'r Atig, Ymchwilio'r Afon Ogwr, cyfranogwyr Cynhadledd Llyfrau Prin CILIP, Cymdeithas Ddinesig Penarth, Pobol yn Gyntaf Y Fro, Grŵp Ymchwilio Gwastadeddau Byw RATS, staff Gwasanaethau Profedigaeth Cyngor Caerdydd a tri grŵp o fyfyrwyr hanes teulu ar wahân.

Roedd ein rhaglen o sgysiau cyhoeddus yn amrywio o hanes Saint Andras i waith Archif Menywod Cymru ac yn cynnwys Hanes Rhyfeddol Grangtown. Cynhaliodd grŵp ymchwil Gwastadeddau Byw fore o sgysiau am ran Caerdydd o Gwastatiroedd Gwent. Cynhaliwyd sgysiau hefyd wrth lansio arddangosfa Cymdeithas Hanes Ysbyty'r Eglwys Newydd, arddangosiad Clwb Tennis Bwrdd Cymunedol Dinas Caerdydd, ac arddangosfa diwedd project Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru. Roedd yr Arddangosfa Mewn Blwch yn gynnwys project partneriaeth rhwng Head4Arts (Celfyddydau Cymunedol ym Mlaenau'r Cymoedd) a sefydliadau treftadaeth gan gynnwys Archifau Morgannwg a Gwent. Y project olaf mewn cyfres o weithgareddau a oedd yn gysylltiedig â Chanmlyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf, archwiliodd yr arddangosfa thema tawelwch drwy gelf a threftadaeth.



Nododd 2019 ganmlwyddiant y terfysgoedd hil a ddigwyddodd mewn nifer o gymunedau porthladdoedd o amgylch Prydain ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf. Effeithiwyd ar Gaerdydd a'r Barri hefyd ac rydym wedi cyfrannu at nifer o ddigwyddiadau coffau yn ystod yr haf, gan ddechrau yn Amgueddfa Stori Caerdydd (Amgueddfa Caerdydd erbyn hyn) lle gwnaethom arddangos copïau o ddogfennau yn cofnodi datblygiad y terfysgoedd yng Nghaerdydd, ynghyd â chyflwyniad byr. Siaradais mewn digwyddiad yn adeilad y Pierhead, noddwyd gan Vaughan Gething, i lansio prosiect a ariannwyd gan y loteri ar y terfysgoedd gyda Chymdeithas Datblygu Horn, ac euthum i ddigwyddiadau coffau yn yr Eglwys Norwyaidd gyda Cymru'n Cofio/Wales Remembers a'r Henuriaid Windrush, yng Nghanolfan Gymunedol Butetown lle darllenwyd drama yn seiliedig ar y digwyddiadau, a chymerais ran mewn taith gerdded a gwasanaeth ym mynwent Merthyr Dyfan, Goddefgarwch drwy Goffau, ar y terfysgoedd yn y Barri.




Mae'r Archifau Cenedlaethol wedi gweithio gyda sawl archifdy lleol i goffáu'r terfysgoedd, gan ddefnyddio deunydd ffynhonnell leol i ehangu'r darlun cenedlaethol, a chysylltu ag ysgolion lleol. Cynhaliwyd eu gweithdy gyda myfyrwyr o Ysgol Uwchradd Fitzalan oedd yn canolbwyntio ar James Gillespie o'r Barri, a dangoswyd eu harddangosfa, 'O Gaerdydd i'r Caribî', yn yr Archifau cyn cael ei harddangos yn Adeilad y Pierhead fel rhan o'u rhaglen ar gyfer Mis Hanes Pobl Dduon fis Hydref. Teithiodd i Derby lle cafodd ei harddangos yng nghynhadledd Cymdeithas Genedlaethol yr Heddlu Du, diolch i Lywydd y Gymdeithas, y Siarsiant Tola Munro o Heddlu Gwent, sy'n ymwelydd cyson â'r ystafell ymchwil. Yn ôl yn yr Archifau, daeth Vaughan Gething, AC, i'w weld, ac rydym eisoes wedi derbyn ceisiadau am ddigwyddiadau a chynadleddau yn 2020.



Mae nifer o raglenni teledu ar y terfysgoedd hil ym 1919 wedi cynnwys segmentau wedi eu ffilmio yn yr Archifau, yn dangos dogfennau cysylltiedig. Bu BBC Wales Today yn ffilmio darn byr gyda Huw Thomas, yn ogystal â chwmni teledu Boom Cymru gyda Yasmin Begum ar gyfer Hansh ar S4C, a recordiodd criw ffilm o raglen gylchgrawn nosweithiol S4C Heno yr Uwch Archifydd yn cyflwyno'r dogfennau sy'n ymwneud â'r terfysgoedd a gedwir yn y casgliad. Siaradodd hefyd ar Radio Cymru ac ar Radio Caerdydd am ddogfennau rydym yn eu cadw sy'n dweud hanes y digwyddiadau. Mae S4C wedi comisiynu rhaglen arall am y terfysgoedd sydd i'w darlledu yn 2020 ac mae ymchwilwyr eisoes yn edrych ar y dogfennau.

Ffilmiodd Who Do You Think You Are ddarn o'r rhaglen ar gyndeidiau Paul Merton yn yr ystafell ymchwil lle datgelwyd y gwirionedd am farwolaeth ei dad-cu. Mae Heno yn ymwelwyr cyson, eleni yn ffilmio darnau ar Gaffi Iseldireg Caerdydd, y Blits, a phroject Ymddiriedolaeth Wellcome, Gwaed Morgannwg. Gwnaeth criw ffilm o'r Almaen ddarn ar ailgysylltu perthnasau a gollodd ei gilydd amser maith yn ôl, ac mae The One Show yn ffilmio darnau achyddol yn ein hystafell ymchwil. Cafodd rhannau o'r adeilad eu llogi am y diwrnod ar gyfer ffilm gwybodaeth fer, rhan o gyfres a fwriadwyd i ddysgu pobl ifanc am fywyd fel oedolyn. Addaswyd y brif swyddfa lan stâr fel canolfan waith, tra cafodd yr ystafell flaen ei throï, ymhen oriau, mewn ystafell wely.



Mae staff wedi mynychu digwyddiadau ym mhob un o'n hawdurdodau cyllido. Cyflwynodd yr Uwch Archifydd weithdy yng Nghynhadledd Tenantiaid Cyngor Caerdydd ar 100 o flynyddoedd o dai cyngor. Roeddem hefyd yn bresennol yn ffair flynyddol Cymdeithas Hanes Teulu Morgannwg ym Merthyr Tudful, cynadleddau blynyddol Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru, Archif Menywod Cymru, a Chymdeithas Hanes Gelligaer, ysgolion dydd a drefnwyd gan Lafur: Cymdeithas Hanes Pobl Cymru ar brotest poblogaidd, Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg - Gwent ar y Rhyfel Byd Cyntaf, a Grŵp Awen Llyfrgell yr Eglwys Newydd ar wleidyddiaeth radicalaidd yn ne Cymru, a digwyddiad Llais leuenctid yn y Senedd, yn ogystal â darlith Archwilio'r Gorffennol Prifysgol Caerdydd ar Wallgofdy Morgannwg. Aeth y staff i ddigwyddiad Treftadaeth Ddisylw ar safle'r hen Lofa Fernhill, lansiad arddangosfa Clwb Tennis Bwrdd Cymunedol Caerdydd yn Amgueddfa Caerdydd, hefyd arddangosfa pen-blwydd yn 80 Cyngor ar Bopeth Rhondda Cynon Taf yn Amgueddfa Pontypridd, a gafodd ei harddangos yn ddiweddarach yn yr Archifau.



Cynhaliodd Cyngor Caerdydd ei wasanaeth coffau blynyddol i staff yn Neuadd y Ddinas ar 11 Tachwedd. Darllenodd yr Uwch Archifydd ddarn byr yn cynnig straeon am rai o'r rheini a gafodd eu cynnwys ar gofrestr anrhydedd y staff, yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd gan y gwirfoddolwr Rosemary Nicholson. Cynrychiolais Gyngor Archifau a Chofnodion Cymru yn y digwyddiad dadorchuddio cofeb yng Nghaerdydd i ddynion a menywod duon a lleiafrifoedd ethnig, ac ar gyfarfod olaf Bwrdd Cymru'n Cofio.


Rhoddodd y cadwraethwr sgwrs yng nghynhadledd diwrnod Materion Cadwraeth Cymru ar dynnu'r haen ddelwedd o negatifau seliwlos a seliwlos asetad. Siaradodd yr Uwch Archifydd am yr artistiaid preswyl yn Fforwm ARCW.

Ym mis Tachwedd, cefais fy ngwahodd i gymryd rhan mewn cynhadledd ar wirfoddoli yn y sector treftadaeth ddiwylliannol ym Mhrifysgol Ewrop Canolog yn Budapest. Siaradais am ein profiad o ddefnyddio gwirfoddolwyr, y mae ei gyfraniad eleni wedi bod ychydig o dan 7,000 awr, sef mwy na 4 aelod o staff llawn amser. Tra'r oeddwn yno, fe wnes i hefyd draddodi darlith gyhoeddus ar ein hymgysylltiad â'r gymuned a'r ystod o grwpiau yr ydym wedi gallu adeiladu partneriaethau cynaliadwy â nhw.

Ac, yn ôl yr arfer, nid oedd y cysylltiadau rhyngwladol yn un ffordd yn unig. Dychwelodd ein cyfeillion o'r Archifdy Gwladol yn Botswana am daith o amgylch yr adeilad gan eu bod nawr yn y broses o gynllunio adeilad newydd ar gyfer eu harchif presennol. Mae briff yr adeilad a dogfennau eraill wedi'u rhannu. Daeth archifwyr o ranbarth Veneto yr Eidal ar daith a darganfod mwy am ein rhaglenni ymgysylltu â'r gymuned a gwirfoddoli.



Daeth tîm o wneuthurwyr ffilmiau o Rwsia â'u darn Donetsk i Chapter yng Nghaerdydd ac wedi hynny fe wnaethant ymweld â'r Archifau i edrych ar ddeunydd o Archif Ymchwil Hughesovka. Mae diddordeb yn stori Hughesovka yn parhau. Mae copïau digidol o ddeunydd wedi'u darparu i gyn-staff yr Amgueddfa yn Donetsk sy'n ceisio ailsefydlu casgliad ar ôl i'r amgueddfa gael ei dinistrio i raddau helaeth yn y rhyfel Donbass yn ddiweddar. Bwriedir cynnal arddangosfa ynghyd ag ymweliadau â'r DU gan weithwyr treftadaeth proffesiynol o'r Wcráin. Darlledodd teledu Wcreineg gyfweiliad gyda'r curadur yn arddangos y delweddau a drosglwyddwyd. Mae cynhadledd ar dreftadaeth ddiwydiannol yn cael ei gynllunio ar gyfer yr haf o 2020 yn yr Wcráin. Mae Prifysgol St Andrews yn cymryd rhan, yn ogystal â Phrifysgol Ewrop Canolog a chydweithwyr yn yr Wcráin ei hun. Mae'n debygol y gofynnir i Archifau Morgannwg gyfrannu.




Nid yw gwesteion o Brydain wedi cael eu hesgeuluso. Ymwelodd Jeff James, Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr yr Archifau Gwladol â Morgannwg ar ei daith genedlaethol i ddathlu 150 mlynedd o'r Comisiwn Llawysgrifau Hanesyddol. Fe'i dangoswyd o amgylch yr adeilad, gan gyfarfod â staff a gwirfoddolwyr ar y ffordd. Daeth Dirprwy Gyfarwyddwr MALD, sydd newydd ei benodi, Nicola Guy, i weld yr adeilad a thrafod darpariaeth gwasanaeth archifau yng Nghymru. Daeth Cyfarwyddwr newydd Cymdeithas Frenhinol y Penseiri yng Nghymru, Elinor Weekly, am olwg cyffredinol o'r maes a dangoswyd yr adeilad iddi hefyd. Daeth Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru, Alun Michael, i edrych ar gofnodion Cwnstabliaeth a gweld yr adeilad.





Rydym wedi llwyddo i ddenu grantiau o nifer o wahanol ffynonellau. Wrth i broject Gwaed Morgannwg ddirwyn i ben, dyfarnwyd grant gan 'Archifau wedi eu Datgelu' yr Archifau Cenedlaethol i restru cofnodion Cymdeithas Porthladdoedd Prydain a Chorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd. Dechreuodd yr Archifydd Project ar ei waith ym mis Rhagfyr ac mae'n gwneud cynnydd da. Mae ei swydd yn cael ei hariannu am flwyddyn. Mewn cadwraeth gwnaethom gais llwyddiannus am grant trawsnewid mawr gan Lywodraeth Cymru i brynu bwrdd sugno amlswyddogaethol. Roeddem hefyd yn llwyddiannus gyda chais i'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Llawysgrifau Cenedlaethol am grant i warchod arolygon Ystâd Plymouth. Bydd y project yn dechrau ar ôl i'r tîm gwblhau ei restr bresennol o archebion allanol, sy'n cynhyrchu incwm.

Mae'r Casgliad yn parhau i dyfu gyda 217 o dderbyniadau yn ystod y flwyddyn. Mae rhai yn ganlyniad i bartneriaethau a phrojectau. Mae ein gwaith gyda Chymdeithas Hanes Iddewig De Cymru yn dechrau dwyn ffrwyth ar ffurf casgliad o gofnodion o Synagog Newydd/Diwygiedig Caerdydd, sydd eisoes wedi'u didoli a'u catalogio gan wirfoddolwyr y project. Mae proffil uchel ein casgliadau glo, sy'n deillio o gyhoeddusrwydd a gynhyrchwyd gan broiect Gwaed Morgannwg, wedi arwain at gynnydd yn nifer y cofnodion sy'n ymwneud â glofeydd. Un enghraifft ddiddorol oedd astudiaeth o'r diwydiant mwynloddio a'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol a luniwyd gan Jill McAndrew, Swyddog Nyrsio Glofeydd, yng Nglofa Taf Merthyr a Phwll Glo Drifft Trelewis, a oedd yn cynnwys lluniau o'r adeiladau, y pwll a'r staff. Bu Joan Mark, a aned yng Nghaerdydd yn 1921, yn gweithio fel nyrs yn ystod y 1930au a'r 1940au mewn amryw o ysbytai lleol, gan gynnwys ysbyty orthopedig Tywysog Cymru, Caerdydd, City Lodge, Caerdydd ac Ysbyty Cangen Crossways, y Bont-faen. Mae'r casgliad yn cynnwys ei dyddiadur ar gyfer 1939 lle mae'n rhoi cipolwg diddorol ar fywyd nyrs, gan gynnwys ei dyletswyddau, problemau gyda staff a'r fetron a'r salwch ar y wardiau. Mae hi hefyd yn cofnodi manylion ei bywyd cymdeithasol, ymweliadau â theulu a dechrau'r Ail Ryfel Byd.



Cyfres ddiddorol arall o ddyddiaduron oedd yr un gan uwch swyddog Heddlu Morgannwg bu'n gwasanaethu am gyfnod hir. Ganwyd William Charles May yn y Wig ar 4 Mehefin 1892, ymunodd â Heddlu Morgannwg yn 1914, ac fe'i hyrwyddwyd i Siarsiant ddeng mlynedd yn ddiweddarach. Yn ddiweddarach daeth yn arolygydd a bu'n gwasanaethu ym mhencadlys Heddlu Morgannwg yng Nghaerdydd hyd ei drosglwyddiad i Ben-y-bont ar Ogwr fel Uwcharolygydd yn 1936, lle arhosodd tan ymddeol ar ôl mwy na 30 mlynedd o wasanaeth. Mae ei gofnodion dyddiadur yn ymdrin â'r cyfnod 1937-1944 ac yn cynnwys sylwadau a wnaed mewn cysylltiad â'i ddyletswyddau, gan gynnwys cofnod o ddigwyddiadau yn ystod y rhyfel megis cyrchoedd awyr yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod y 1940au cynnar.

Trosglwyddwyd casgliad o luniau o Neuadd Dref a Llyfrgell y Barri o archifau Wiltshire a Swindon. Maent yn dangos y tu mewn a'r tu allan i'r adeilad cyn ei adfer yn 2003. Adneuwyd deuddeg llun o'r awyr o'r llwybr A470, a gymerwyd ar gyfer Ymgynghoriaeth Beirianeg Morgannwg. Maent yn dangos hynt gwaith adeiladu'r ffordd o amgylch Pontypridd ac maent yn fanwl iawn.





Cynrychiolwyd gwleidyddiaeth gan bapurau Phil Bale, cyn-arweinydd Cyngor Dinas Caerdydd o 2014-2017 a Chynghorydd y Blaid Lafur a Chydweithredol ar gyfer Llanisien a Draenen Pen-y-graig, a ymddiswyddodd ym mis Hydref 2019. Mae'r papurau'n ymwneud â'i gysylltiad â Chynllun Uchelgais Prifddinas Caerdydd, ac â'i waith ymgyrchu, gan gynnwys ymgyrch Achub Cronfa Ddŵr Llanisien. Derbyniwyd papurau gan fudiad ymgyrchu arall, Cynon Valley Anti-Poll Tax Group, gan gynnwys llyfr cofnodion, nodiadau cyfarfodydd, sgriptiau ar gyfer areithiau, taflen ymgyrch, a phosteri. Mae casgliad helaeth o gofnodion wedi cael ei cyflwyno gan deulu Arglwydd Faer Caerdydd, Herbert Hiles, a anwyd yn Wellington, Somerset yn 1881, a weithiodd fel bachgen pobi cyn symud i Gaerdydd, lle daeth yn Arglwydd Faer yn 1936, derbyniodd M.B.E a chafodd ei urddo'n farchog y flwyddyn ganlynol. Mae mwyafrif y cofnodion yn dyddio o'i gyfnod fel Arglwydd Faer ac yn cynnwys ffotograffau o strydoedd preswyl a addurnwyd ar gyfer y coroni, ymweliad y Brenin Siôr VI a'r Frenhines Elizabeth yn ystod eu blwyddyn coroni, a nifer o raglenni a ffotograffau a oedd yn cofnodi digwyddiadau swyddogol a fynychwyd. Dethlir Maer arall Caerdydd, Edmund William Vaughan, mewn tystysgrifau coffa goleuedig a gyflwynwyd iddo yn ei flwyddyn maer, 1893.

Cafwyd casgliad diddorol yn ymwneud ag addysgu'r Gymraeg yng Nghaerdydd gan ddefnyddiwr rheolaidd yr ystafell ymchwil. Wedi'i sefydlu yn y 1970au gan grŵp o athrawon, trefnodd Cymdeithas Dysgwyr Caerdydd weithgareddau i ddysgwyr yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn 1978, ac aeth ymlaen i drefnu eisteddfodau lleol i ddysgwyr. Ffurfiwyd Cymdeithas Canna yn y 1980au cynnar gan athrawon y Gymraeg yng Nghanolfan yr Urdd, Conway Road, Treganna. Nod y Gymdeithas oedd meithrin a hyrwyddo addysg y cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg drwy hyrwyddo dosbarthiadau Cymraeg yng Nghaerdydd. Daeth gweithgarwch y gymdeithas i ben yng nghanol y 1990au.

Adnewydd casgliad mawr o gofnodion gan Undeb Bedyddwyr Cymru ar gyfer Capel Caersalem, Dowlais, a adeiladwyd ar dir a brydleswyd oddi wrth Gwmni Haearn Dowlais yn 1820, gyda'i is-gapeli, Hebron, Elim a Moriah. Derbyniwyd cofnodion hefyd am Eglwys y Bedyddwyr Saesneg Calvary, Trefforest.

Dechreuodd Cymdeithas adeiladu'r Principality drosglwyddo ei chofnodion. Fe'i sefydlwyd yn 1860 fel Cymdeithas Adeiladu Buddsoddiad Parhaol y Principality, sef cwmni o Gaerdydd, a fuddsoddwyd £2,200,000 yn ei 50 o flynyddoedd cyntaf i helpu adeiladu 15,000 o dai. Mae'r cofnodion busnes yn cynnwys casgliadau o'r nifer fawr o gymdeithasau adeiladu a gaffaelwyd yn y 1970au gan gynnwys Cymdeithasau Adeiladu Budd Parhaol Maesteg a Gorseinon, ynghyd â Chymdeithasau Adeiladu Abertawe a Chaerfyrddin. Ar ben arall y raddfa, derbyniwyd llyfrau cyfrifon siop gan Boadens Stores, Tynant, y Beddau, yn dangos prisiau a thaliadau rhandaliadau credyd o'r 30au hyd y 60au.

Yn olaf, rhoddwyd casgliad mawr gan Howells (House of Fraser), Caerdydd. Bygythiwyd cau'r siop eiconig, sydd wedi bod yn masnachu yng Nghaerdydd ers canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r eitemau a dderbyniwyd yn cynnwys cynlluniau, cyfrifon, adroddiadau blynyddol, rhestrau, ffotograffau a llyfrau toriadau newyddion.

Darperir rhestri llawn o'r ychwanegiadau yn adroddiadau Archifydd Morgannwg i Gyd-bwyllgor Archifau Morgannwg, sydd ar gael ar-lein yn: <https://cardiff.moderngov.co.uk/ieListMeetings.aspx?CommitteeId=148&LLL=1>

Bu rhywfaint o symud staff yn ystod y flwyddyn. Mae Archifydd a Chadwraethwr Project Gwaed Morgannwg wedi symud ymlaen i gyflogaeth yn y sector ar ddiwedd eu tymor, Louise i Awyrofod Bryste a Stephanie i Amgueddfa Victoria ac Albert. Mae ein cyn Hyfforddai Corfforaethol, Jake, bellach gyda Chanolfan Dreftadaeth Heddlu De Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac ymunodd un o'r hyfforddeion newydd, Rasheed, â ni ar ddechrau mis Chwefror. Mae tri hyfforddai Uchelgais Prifddinas, sef Freya, Adam a Lloyd, wedi cwblhau lleoliadau a chymwysterau eu blwyddyn. Disgwylir i hyfforddai newydd gyrraedd ym mis Mawrth.

A byddaf yn ymddeol ar 31 Mawrth. O ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd, Archifydd Morgannwg fydd Laura Cotton, sydd ar hyn o bryd yn Gyfarwyddwr Canolfan Astudiaethau Swydd Buckingham yn Aylesbury. Mae ganddi rai cysylltiadau Cymreig yn barod ac mae ganddi gymwysterau da iawn i barhau i ddatblygu'r gwasanaeth i ddiwallu anghenion cyfnewidiol ein defnyddwyr yr 21ain ganrif a'n dogfennau o nifer o ganrifoedd. Rwy'n gobeithio y bydd yn mwynhau ei deiliadaeth gymaint ag yr wyf i wedi ac y caiff croeso a chefnogaeth gan ein holl gymuned.

Susan Edwards

Archifau Morgannwg





Archifau Morgannwg
Clos Parc Morgannwg
Caerdydd
CF11 8AW



029 2087 2200



Glamro@caerdydd.gov.uk



www.facebook.com/glamarchives



www.archifaumorgannwg.gov.uk



@GlamArchives